Eich canllaw i sefydlu cartref gyda'ch partner

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Diogelu eich dyfodol

Gall mynd i fyw gyda'ch partner neu brynu tŷ gyda'ch gilydd ymddangos yn syniad cyffrous. Ond prin yw'r parau sy'n sylweddoli pa mor beryglus y gall eu sefyllfa fod o safbwynt cyfreithiol. Gall ymddangos yn hen ffasiwn, ond nid yw parau dibriod wedi'u diogelu gan y gyfraith yn yr un ffordd ag y mae parau priod neu bartneriaid sifil wedi'u diogelu. Nid yw priodas cyfraith gyffredin yn bodoli. Yn anffodus, erbyn i bobl sylweddoli hyn, mae yn aml yn rhy hwyr - mae'r berthynas yn methu neu mae partner yn marw a dim ond bryd hynny y maent yn sylweddoli nad oes ganddynt unrhyw amddiffyniad cyfreithiol.

Mae'r daflen hon yn nodi'r pethau y mae angen i chi eu hystyried os nad ydych yn briod neu os ydych mewn partneriaeth sifil. Mae'n werth cael cyngor cyfreithiol ar ôl i chi benderfynu byw gyda'ch gilydd i nodi:

- pa hawliau sydd gennych;
- beth yw eich sefyllfa chi a sefyllfa eich partner ym mhob achos;
- beth y gallwch ei wneud i wneud eich sefyllfa yn fwy diogel.

Dod o hyd i gyfreithiwr

Os nad oes gennych gyfreithiwr yn barod, ewch i'n gwefan yn www.lawsociety.org.uk/findasolicitor a chwiliwch o dan 'Family' i gael manylion cyfreithwyr yn eich ardal. Neu ffoniwch 0870 606 2555.

Beth y bydd angen i'r cyfreithiwr ei wybod

Unwaith y byddwch wedi penodi cyfreithiwr, bydd angen ei friffio'n drwyadl ar eich amgylchiadau. Mae'n debygol o ofyn i chi am bob math o wybodaeth. Gallai hyn gynnwys:

- manylion am hanes eich perthynas;
- rhestr o'ch asedau ac asedau eich partner;
- os ydych yn berchen ar eich cartref eich hun, beth yw ei werth ac o dan enw pwy y'i perchenogir;
- cyfraniadau a wnaethoch chi a'ch partner at werth y cartref (gan gynnwys gwaith ar yr eiddo);
- gwerth unrhyw asedau eraill;
- eich enillion chi ac enillion eich partner;
- a oes gennych chi neu eich partner unrhyw blant.

Bydd eich cyfreithiwr wedyn yn esbonio eich hawliau. Bydd yn tanlinellu'r amgylchiadau lle y gallech chi neu eich rhan chi o'r cartref fod yn agored i risg a bydd yn dweud wrthych pa gamau gweithredu i'w hystyried er mwyn osgoi hyn.

Cofiwch na all eich cyfreithiwr weithredu ar ran y ddau ohonoch yr un pryd. Ni all weithredu ar ran y ddau ohonoch hyd yn oed os byddwch yn dymuno hynny.

Pethau i'w hystyried

Dyma rai o brif feysydd y gyfraith y bydd eich cyfreithiwr yn eu trafod gyda chi.

Perchenogaeth cartref
Os ewch i fyw gyda rhywun a bod y tŷ yn enw'r person hwnnw yn unig, fel arfer ni fydd gennych unrhyw hawl i'r arian a geir o werthu'r tŷ. Bydd hyn yn wir oni allwch brofi eich bod wedi:

- cyfrannu at yr ernes ar gyfer y tŷ neu'r taliadau morgais;
- gwneud ymrwymiad ariannol (er enghraifft, talu am waith sylweddol ar y tŷ) oherwydd i'r ddau ohonoch gytuno y byddech yn berchen ar ran o'r tŷ.

Os nad yw'r tŷ yn eich enw chi efallai na fydd gennych unrhyw hawl i fyw yno os bydd eich partner yn gofyn i chi adael.

Hefyd, os nad yw'r tŷ yn enwau'r ddau ohonoch, nid oes gennych unrhyw hawl i etifeddu'r tŷ os bydd eich partner yn marw oni fydd wedi nodi hynny yn ei ewyllys. Os na fydd yn gadael ewyllys, efallai y bydd angen i chi hawlio o ystad eich partner drwy'r llys. Dim ond os ydych wedi bod yn byw gyda'ch gilydd ers dwy flynedd neu ragor, neu eich bod yn cael eich cynnal yn ariannol gan eich partner y byddwch yn gallu gwneud hynny.

Gallai eich cyfreithiwr argymell bod y tŷ yn cael ei drosglwyddo o enw eich partner i enwau'r ddau ohonoch, naill ai fel 'cyd-denantiaid' neu 'denantiaid cydradd'. Os ydych yn berchen ar y tŷ fel cyd-denant gyda'ch partner, fel arfer mae gennych hawl i 50% o'r arian os gwerthwch yr eiddo. Ac os bydd un ohonoch yn marw, bydd y llall yn etifeddu'r eiddo yn awtomatig, ni waeth beth sydd wedi'i nodi yn eich ewyllysiau.

Fodd bynnag, os ydych yn berchen ar y tŷ fel tenantiaid cydradd, mae gennych hawl i'ch rhan chi o'r eiddo ond dim mwy. Drwy fod yn berchen ar y tŷ fel tenantiaid cydradd gallwch gytuno'n ffurfiol ar ba ran yn union o'r eiddo y mae'r ddau ohonoch yn berchen arni drwy ofyn i'ch cyfreithiwr baratoi 'gweithred ymddiried'. Gall hyn atal anghytundebau yn ddiweddarach. Os bydd un ohonoch am adael eich rhan o'r eiddo i'r llall pan fyddwch yn marw, mae angen nodi hynny mewn ewyllys.

Rhentu ar y cyd
Os ydych yn rhentu gyda'ch gilydd, mae'n syniad da trefnu bod y cytundeb tenantiaeth yn enwau'r ddau ohonoch.

Plant
Os oes gennych blant gyda'ch partner, mae angen i chi feddwl am ba gyfenw y byddwch yn ei roi i'r plentyn a sut i gofrestru ei enedigaeth. Chi a'ch partner ddylai benderfynu pa gyfenw yr ydych am ei ddewis i'r plentyn, a gallwch gofrestru genedigaeth eich plentyn ar y cyd.

O dan y gyfraith, os nad ydych chi a'ch partner yn briod, mam y plentyn sydd â chyfrifoldeb rhiant awtomatig dros y plentyn. O 1 Rhagfyr 2003, os yw'r tad wedi'i gofrestru ar y cyd â'r fam ar y dystysgrif geni, mae ganddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn hefyd. Fel arall, gyda chymorth eich cyfreithiwr, gallwch lunio cytundeb i rannu cyfrifoldeb rhiant gyda'ch partner. Gallai hyn fod yn bwysig yn ddiweddarach os byddwch chi a'ch partner yn gwahanu.

Os ydych yn byw gyda rhywun sydd â phlentyn o berthynas arall, nid yw'r gyfraith yn rhoi unrhyw gyfrifoldeb rhiant i chi o gwbl. Gall eich cyfreithiwr esbonio beth y mae hyn yn ei olygu i chi.

Plant a gwahanu
Os byddwch chi a'ch partner yn gwahanu a bod gennych blant gyda'ch gilydd gallwch wneud cais i'r Asiantaeth Cynnal Plant am daliadau cynnal plant ac i lys am wahanol fathau eraill o gymorth ariannol yn ymwneud â'ch plentyn. Mae hyn yn rhywbeth

Eich canllaw i sefydlu cartref gyda'ch partner

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

y dylech ei drafod â'ch cyfreithiwr cyn gynted ag y bo modd.

Statws perthynas agosaf
Os yw eich partner yn sâl neu os bydd yn marw, efallai na fyddwch yn cael eich ystyried yn berthynas agosaf ato at ddibenion meddygol oni bai eich bod chi a'ch partner yn llunio cytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw. Gall eich cyfreithiwr eich helpu gyda'r cytundeb hwn.

Bancio
Os oes gennych chi a'ch partner gyfrifon banc ar wahân, ni allwch dynnu arian o gyfrif eich partner. Os bydd eich partner yn marw, bydd yr arian yn ei gyfrif yn dod yn rhan o'i ystad. Golyga hyn na fyddwch yn etifeddu'r arian yn awtomatig oni bai bod hyn wedi'i nodi yn ei ewyllys.

Un ateb i hyn yw cael cyfrif banc ar y cyd. Wedyn os bydd eich partner yn marw, bydd y cyfrif cyfan yn dod yn eiddo i chi ar unwaith.

Statws treth
Ni fydd gennych chi a'ch partner yr un manteision treth â pharau priod na'r un manteision treth â phartneriaid sifil, yn arbennig mewn perthynas â threth enillion cyfalaf a threth etifeddiant. Yn wahanol i barau priod a phartneriaid sifil, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth os byddwch am roi asedau mawr i'r partner.

Cynlluniau pensiwn
Os byddwch yn marw, ni fydd eich Pensiwn Gwladol yn cael ei drosglwyddo yn awtomatig i'ch partner. Mae rheolau gwahanol yn gymwys i bensiynau cwmni a phreifat, ac mae'n well edrych ar y rhain yn ofalus gyda'ch cyfreithiwr i weld pa lefel o bensiwn yn union sydd gennych chi a'ch partner.

Gwneud ewyllys
Mae ewyllys yn ffordd ddefnyddiol o nodi pa eiddo ac asedau sy'n perthyn i chi a pha rai sy'n perthyn i'ch partner. Os na wnewch ewyllys, ni fydd gan eich partner hawl awtomatig i ran o'ch asedau os byddwch yn marw, felly mae'n hanfodol eich bod yn gwneud un os ydych am i'ch partner neu blant eich partner etifeddu.

Contractau cyd-fyw
Mae'r cytundebau hyn yn graddol gael eu cydnabod fel ffordd o sicrhau trefniadau ariannol a threfniadau eraill pâr. Maent yn nodi, ymlaen llaw, yr hyn y mae pob aelod o'r berthynas yn ei ddisgwyl gan y llall, yn ystod y berthynas ac os byddant yn gwahanu neu os bydd un ohonynt yn marw. 'Cytundebau anrhydeddus' ydynt, sy'n golygu na ellir gorfodi pob un o'r cymalau yn y llysoedd. Ond maent yn fodd i leihau anghytundebau ac yn sicr yn rhoi rhywfaint o dawelwch meddwl.

Dylech chi a'ch partner geisio cyngor cyfreithiol ar wahân cyn llofnodi cytundeb o'r fath.

Anghytundebau
Yn anffodus, nid yw'r mwyafrif o barau yn cael cyngor cyfreithiol hyd nes i'r berthynas fethu, neu fod partner yn marw neu fod rhyw argyfwng arall. Anaml y gellir datrys problem yr un mor rhwydd ar yr adeg hon, ond bydd gan eich cyfreithiwr y wybodaeth a'r profiad i ddiogelu eich buddiannau. P'un a yw'n achos syml o gadarnhau eich hawliau, neu'n fater cymhleth yn ymwneud â'r plant, bydd eich cyfreithiwr yn dod o hyd i'r ateb gorau i chi o dan y gyfraith.

Costau

Gall y tâl a godir amrywio o gyfreithiwr i gyfreithiwr. Maent yn dibynnu ar:

- brofiad a gwybodaeth y cyfreithiwr;
- y math o wasanaeth a ddarperir;
- a oes angen llunio unrhyw gytundebau.

Cyn i chi benderfynu pwy i'w ddefnyddio, mae bob amser yn syniad da cysylltu â rhai cyfreithwyr lleol i gymharu eu prisiau. Fodd bynnag, nid y pris yw'r unig ystyriaeth. Mae yr un mor bwysig dod o hyd i gyfreithiwr y mae'n hawdd siarad ag ef, ac un yr ydych yn deall ei gyngor.

Efallai y bydd modd i chi gael cymorth ariannol i dalu am gyfreithiwr os yw eich incwm yn fach, neu os ydych yn cael budd-daliadau'r Wladwriaeth. Bydd eich cyfreithiwr yn dweud wrthych a ydych yn gymwys i dderbyn y cymorth hwn.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r daflen hon yn un o gyfres o daflenni sy'n ymdrin â'r mathau mwyaf cyffredin o wasanaethau cyfreithiol a ddarperir gan gyfreithwyr. Rhestrir taflenni eraill yn y gyfres isod. Maent ar gael oddi wrth eich cyfreithiwr neu drwy ffonio Cymdeithas y Cyfreithwyr ar 0870 3333 084.

Eich canllaw i brynu cartref
Eich canllaw i wneud ewyllys
Eich canllaw i gael ysgariad
Eich canllaw i broblemau yn y gwaith
Eich canllaw i sefydlu busnes
Eich canllaw i wneud cais am iawndal oherwydd anaf personol
Eich canllaw i faterion ariannol ar gyfer yr henoed
Eich canllaw i roi eich eiddo ar rent
Eich canllaw i rentu cartref
Eich canllaw i ddefnyddio cyfreithiwr
Eich canllaw i brofiant
Eich canllaw i hawlio lloches

Mae'r daflen hon ar gael mewn print bras, mewn Braille, ar dâp sain ac ar CD. Os oes angen un o'r fersiynau hyn arnoch, cysylltwch â ni drwy e-bost yn accessibility@lawsociety.org.uk neu ffoniwch 0870 606 2555.

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn gwahanol ieithoedd. Gallwch eu cael drwy fynd i'n gwefan, www.lawsociety.org.uk.

Lexcel
Chwiliwch am Lexcel - nod rhagoriaeth

The Law Society 113 Chancery Lane London WC2A 1PL Ffôn: 020 7242 1222 www.lawsociety.org.uk

Er i ni wneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth gywir, mae'r gyfraith yn newid o hyd ac yn effeithio ar bob person yn wahanol. Nid yw'r daflen hon felly yn lle cyngor penodol a roddir i chi yn bersonol ac ni fyddwn yn atebol i chi os byddwch yn dibynnu ar y daflen hon.

Dyluniwyd gan dmlmarketing.co.uk Fersiwn 2, 2007